



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Y Bwthyn

**Cartref Gofal Preswyl Y Bwthyn
Heol Bigyn
Llanelli
SA15 1PA**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

18/05/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn ag Y Bwthyn

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin
Lleuedd cofrestredig	32
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	7/5/2019
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae rheolwr profiadol yn arwain tîm staff ymroddedig sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y bobl sy'n byw yn y cartref, eu perthnasau, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth trwy ei hymweliadau Rheoliad 73 ac offer archwilio ansawdd.

Mae iechyd, llesiant a diogelwch y bobl yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y cartref. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cadarnhau hyn. Mae cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn ond mae angen eu cadw'n gyfredol. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn ymwneud â'u gofal pan fo modd. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac yn wybodus am y bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn lân heb unrhyw arogleuon drwg, ond gallai ystafelloedd ymolchi cymunol fod yn fwy croesawgar. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus ac wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gofalu am y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae ganddynt hefyd ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae angen cadw cofnodion am gyfranogiad y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gyfredol er mwyn sicrhau bod pobl yn cadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn dweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Y Bwthyn.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwyllo a hyfforddi da ar waith i sicrhau bod gan y staff y sgiliau, gwybodaeth ac ymagwedd gywir at ofal. Mae'r staff yn parchu'r rheolwr, sydd yn ei thro yn cael ei chefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae'r staff gofal yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau i amddiffyn y bobl a chânt eu cefnogi gan bolisiâu sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ac mae'r staff yn glir ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae'r gwasanaeth yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, er y gallai ystafelloedd ymolchi cymunol fod yn fwy croesawgar.

Mae dewisiadau a safbwyntiau'r bobl yn cael eu cydnabod. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gofyn am farn y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall y bobl roi eitemau personol yn eu hystafelloedd gwely, gallant ddewis eu hoff brydau bwyd, a gallant godi a mynd i'r gwely pan fydd yn gyfleus iddynt. Mae dewisiadau unigol wedi'u dogfennu'n dda mewn cofnodion gofal. Mae'r amgylchedd yn cynnig sawl man cymunol i'r bobl gwrdd â'u hymwelwyr a chymdeithasu.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt ac yn canmol y staff a'r gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym, *"Mae'n gartref hyfryd, mae'r gofalwyr yn wych", "Mae'n gartref hardd – rwy'n hapus iawn yma" ac "Rwy'n hapus iawn, maen nhw i gyd yn dda iawn."* Mae'r aelodau teulu hefyd yn canmol y cartref ac mae sylwadau'n cynnwys, *"Rwy'n teimlo rhyddhad bod fy nhad yma. Nid oes gennyf unrhyw bryderon am ansawdd y gofal. Pe bai gennyf bryder, rwy'n gwybod y gallaf siarad â'r rheolwr neu gydag aelod o'r staff" ac "Nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch y cartref, mae'r gofalwyr yn ymddangos yn dda iawn."* Dywedodd yr holl bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Y Bwthyn. Mae hyn hefyd yn cael ei adleisio gan y perthnasau y siaradasom â nhw. Mae gweithdrefn gwyno glir wedi'i chynnwys yn yr wybodaeth a roddir i'r bobl a/neu eu perthnasau pan fyddant yn symud i'r gwasanaeth. Mae hysbysiadau mewn manau cymunol hefyd yn egluro sut i wneud cwyn.

Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Gwyddant am hanes y bobl, eu hanghenion gofal a'u hoffterau dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau cefnogi'r bobl a gweithio yn y cartref. Gwnaethant ddweud wrthym, *"Mae'n dda yma, rwy'n hapus iawn, rydyn ni'n dîm da o staff", "Dwi wrth fy modd yma, rwy'n mwynhau'r gwaith, y preswylwyr a'r staff" a "Does dim byd gwell na chyrraedd adref a meddwl bod y diwrnod wedi mynd yn dda iawn."*

Ar y cyfan, mae gan gynlluniau gofal a chymorth fanylion da ac maent yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn, gan gynnwys dewis iaith, anghenion deietegol, a threfn dydd i ddydd. Mae llawer o'r tîm o staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg, a gwelsom hyn yn ystod yr arolygiad. Mae tystiolaeth bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â gofal y bobl, ond dylid cadw cofnodion yn gyfredol i adlewyrchu hyn. Lle bo modd, mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal i ddangos eu bod yn ymwneud â'u gofal. Mae arferion da o ran storio, cofnodi a rhoi meddyginiaeth ar waith.

Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd pum seren gyda bwydlenni amrywiol yn cynnig dewisiadau dyddiol. Dywedodd y bobl wrthym, *"Mae'r prydau bwyd yn hyfryd, mae yna bob amser ddewisiadau gwahanol ar gael os ydw i eisïau."* Mae bwydlenni'n cael eu diweddarau yn ôl y tymor ac mewn ymgynghoriad â'r bobl. Mae amser bwyd yn ymddangos yn ddigwyddiad cymdeithasol cadarnhaol a phleserus iawn.

Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Mae profi a gwasanaethu offer diffodd tân, symud a thrin yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae cynlluniau personol gwacáu mewn argyfwng unigol ar waith ac mae copïau ar gael yn rhwydd. Mae larymau brys yn hygyrch a phan fyddant yn canu, ymatebir iddynt mewn modd amserol. Mae cyfyngwyr agor ffenestri yn eu lle.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae gorsafoedd glanweithdra a chyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Defnyddir gweithdrefnau profi COVID-19 ar gyfer pob ymwelydd. Mae mesurau priodol a diogel i hwyluso ymweliadau gan berthnasau a ffrindiau. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.

Mae sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae manau cymunol yn glir ac yn rhydd o beryglon. Mae gan y staff domestig yr offer priodol i gyflawni eu tasgau'n ddiogel. Mae gwiriadau cynnal a chadw trylwyr, gwasanaethu ac archwiliadau yn eu lle ac mae'r swyddog cynnal a chadw yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gyfer yr holl swyddogion cynnal a chadw o fewn y sefydliad yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn rhydd o arogleuon drwg.

Mae dodrefn a gosodiadau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys eitemau personol, gan gynnwys eu dodrefn eu hunain, lluniau, ffotograffau, ac eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae drysau ystafelloedd gwely wedi'u trin i edrych fel drysau ffrynt i gynorthwyo cyfeiriadedd y bobl. Mae yna nifer o ardaloedd cymunol i'r bobl gymdeithasu ynddynt. Er bod yr ystafelloedd ymolchi cymunol yn lân, maent yn edrych yn glinigol ac nid ydynt yn groesawgar iawn i'r bobl fwynhau bath. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo cofnodion gofal un person yn nodi: *“Mae X yn mwynhau bath gyda swigod bath.”*

Mae'r gerddi cymunol yn cynnig manau deniadol i'r bobl a'u hymwelwyr eistedd a chymdeithasu mewn tywydd cynnes. Gall pobl helpu i blannu potiau a chynnal a chadw'r gerddi, a dywedodd un person wrthym, *“Rwy'n hoffi plannu, ond ddim mor hoff o'r chwynnu!”*

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cynnal yr ymweliadau Rheoliad 73 bob tri mis a'r adroddiad ansawdd gofal bob chwe mis. Mae AGC wedi cael copïau o'i hadroddiadau, sy'n dangos ei bod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'i hymweliadau â'r gwasanaeth. Cadarnhaodd hyn i ni gan y staff a'r bobl. Dywedodd un aelod o staff, *"Mae [yr unigolyn cyfrifol] yn ymweld yn rheolaidd ac yn siarad â staff a'r preswylwyr."* Dywedodd un arall wrthym: *"Mae hi bob amser yn treulio amser i siarad â staff a phreswylwyr, mae ganddi ddiddordeb ynom ni."* A dywedodd rhywun wrthym, *"Ydw, dwi wedi sgwrsio â hi ychydig o weithiau pan fydd yn ymweld, rwy'n ei chofio fel y rheolwr yma, mae hi'n dda iawn a charedig."* Cynhelir amrywiaeth o offer monitro ac archwiliadau. Mae camau gweithredu o'r archwiliadau yn cael eu gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rheolwr yn cael goruchwyliaeth reolaidd gan yr unigolyn cyfrifol ac mae'n teimlo ei bod yn cael ei chefnogi'n dda ganddi.

Mae'r staff yn gymwys ac yn wybodus ac yn cael eu cefnogi i ofalu am y bobl sy'n byw yn y cartref. Maent yn mynychu ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r gwasanaeth ac mae cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym am yr hyfforddiant y maent yn ei fynychu ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl o ran amddiffyn y bobl ac arferion codi a chario diogel. Mae cofnodion staff yn dangos eu bod yn cael cyfnod sefydlu da a'u bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd ac yn cael arfarniad blynyddol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym, *"Rydyn ni wedi cael llawer o hyfforddiant ar-lein yn ystod y pandemig, ond mae hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ailddechrau"* ac *"Rwy'n cael goruchwyliaeth reolaidd gyda [y rheolwr] – rwy'n ei chael hi'n ddefnyddiol iawn."* Mae'r gweithwyr gofal yn canmol y rheolwr a'r cymorth y mae'n ei ddarparu. Dywedasant wrthym, *"Mae hi [y rheolwr] yn barod iawn i helpu"*, *"Mae ei drws bob amser ar agor"* a *"Gallwch siarad â [y rheolwr] pryd bynnag y dymunwch."*

Mae cliriadau a gwiriadau priodol yn cael eu cwblhau cyn i'r staff ddechrau cyflogaeth. Fodd bynnag, cedwir contractau cyflogaeth staff yn yr adran Adnoddau Dynol, ond dylent fod ar gael yn hawdd i'w harchwilio. Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol a gallant egluro eu cyfrifoldebau o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ar waith i gefnogi'r staff.

Mae perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn canmol y staff a'r rheolwr. Mae eu sylwadau'n cynnwys:

"Rwy'n meddwl bod hwn yn gartref da iawn sy'n cael ei redeg yn dda, ac mae'r rheolwr a'r staff yn dda iawn" ac

"Nid oes gennyf unrhyw broblemau gyda'r cartref – mae'n cael ei reoli'n dda, mae'r gofalwyr yn dda iawn, maen nhw'n dilyn cyfarwyddiadau clinigol yn dda, ac rwy'n meddwl eu bod yn darparu gofal da iawn." Drwy gydol cyfnod yr arolygiad, roedd y staff yn rhyngweithio ac yn

cefnogi'r bobl mewn modd gofalgaf a pharchus, sy'n ychwanegu at yr awyrgylch
croesawgar a hapus yn y cartref.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 05/07/2022